Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

This document is also available in English

# Polisi'r Iaith Gymraeg

| | |
|---|---|
| Awdur | Dirprwy Bennaeth a Phrif Weithredwr Cyllid |
| Fersiwn | 1.2 |
| Statws | Cymeradwywyd |
| Dyddiad Cymeradwyo | 27-11-2025 |
| Cymeradwywyd gan | Pwyllgor Archwilio a Risg |
| Dyddiad Cychwyn | Tachwedd 2025 |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf | Tachwedd 2027 |
| Cyfrifoldeb am adolygu | Dirprwy Bennaeth a Phrif Weithredwr Cyllid |
| Gwnaethpwyd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg | Do |
| Ystyriwyd goblygiadau Iechyd a Diogelwch | Do |

| Fersiwn | Dyddiad | Disgrifiad | Adolygwyd/Addaswyd gan |
|---|---|---|---|
| 1.0 | 29 /10/2025 | Adolygiad o'r Polisi Iaith Gymraeg | Dirprwy Bennaeth a Phrif Weithredwr Cyllid |
| 1.1 | 27/11/2025 | Cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg/VP-CFO | |
| 1.2 | 16/01/2026 | Addasiadau bach i gymalau 1.1, 3.4, 3.5, 3.7 a 4.2 i gywiro camgymeriadau teipio a gwella eglurdeb. Dim newidiadau i'r ystod na phrif fyrdwn y cynnwys./VP-CFO | |

## Cynnwys

1. Ystod a Phwrpas .......... 3
2. Diffiniadau .......... 4
3. Datganiad Polisi .......... 4
    3.1: Cyfathrebu .......... 4
    3.2: Cyfarfodydd Cyhoeddus a Digwyddiadau .......... 4
    3.3: Dogfennau, Cyhoeddiadau a Marchnata .......... 4
    3.4: Presenoldeb Ar-lein a Digidol .......... 4
    3.5: Y Gweithle a Recriwtio .......... 4
    3.6: Amgylcheddau Dysgu .......... 5
    3.7: Yr Amgylchedd ac Arwyddion .......... 5
    3.8: Monitro, Adrodd a Chwynion .......... 5
4. Cyfrifoldebau .......... 5
5. Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg .......... 5
6. Cyfathrebu a Chadw .......... 5
Asesiad Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg y Polisi Iaith Gymraeg. **Error! Bookmark not defined.**

# 1. Ystod a Phwrpas

1.1: **Pwrpas**

Diben y polisi hwn yw sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol a moesol o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r Safonau Iaith gysylltiedig. Mae'n dangos ymrwymiad y Coleg i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r polisi hwn yn ceisio:

• Ymgorffori dwyieithrwydd fel gwerth craidd y Coleg ac yn rhan annatod o'i ddiwylliant a'i hunaniaeth.

• Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl Safonau Iaith Gymraeg cymwys a gofynion rheoleiddio cysylltiedig.

• Darparu disgwyliadau a chanllawiau clir i staff a dysgwyr ar ddarparu a defnyddio gwasanaethau iaith Gymraeg.

• Hyrwyddo cyfle cyfartal a chynhwysiant drwy alluogi dysgwyr, staff a rhanddeiliaid i ymgysylltu â'r Coleg yn yr iaith o'u dewis.

Drwy weithredu'r polisi hwn, mae'r Coleg yn anelu at greu amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol sy'n annog defnydd gweithredol o'r Gymraeg. Mae'n cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol ac yn adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru.

1.2: **Ystod**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff, myfyrwyr, contractwyr, ymwelwyr a rhanddeiliaid y Coleg. Mae'r polisi'n ymestyn i ystod o ddulliau cyfathrebu, mewnol ac allanol gan gynnwys deunyddiau ysgrifenedig, llafar, digidol a gweledol gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a bod hawliau siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynnal yn unol â gofynion statudol.

1.3: **Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol**

Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd ag ac yn cefnogi ystod o bolisïau a gweithdrefnau'r coleg i sicrhau dull unedig o reoli data a chofnodion. Dylid ei ddarllen ar y cyd â:

- Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Polisi Recriwtio
- Polisi Cwynion, Pryderon a Chanmoliaeth

1.4: **Deddfwriaeth a Fframweithiau Rheoleiddiol Perthnasol**

Mae'r polisi hwn wedi'i gynllunio i gydymffurfio â deddfwriaeth allweddol, fframweithiau rheoleiddio a chanllawiau'r llywodraeth a'r diwydiant gan gynnwys:

- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Safonau'r Iaith Gymraeg
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Canllawiau a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg

# 2. Diffiniadau

### 2.1: Safonau'r Iaith Gymraeg

Y dyletswyddau cyfreithiol a nodir o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg.

### 2.2: Y Coleg

Yn cyfeirio at Goleg Catholig Dewi Sant ac yn cynnwys yr holl staff, dysgwyr, contractwyr, llywodraethwyr ac ymwelwyr sy'n ymgysylltu â'i weithgareddau.

### 2.3: Comisiynydd y Gymraeg

Y corff statudol annibynnol a sefydlwyd i hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r iaith Gymraeg, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg drwy fonitro, ymchwilio a gorfodi.

# 3. Datganiad Polisi

### 3.1: Cyfathrebu

Mae Coleg Catholig Dewi Sant yn croesawu galwadau yn y Gymraeg i'n prif linell a gall unrhyw un sy'n galw ddewis parhau â'u galwad yn y Gymraeg.

Bydd gohebiaeth, fel llythyrau ac e-byst, a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg heb oedi.

Pan fydd y Coleg yn anfon cyfathrebiadau at grŵp, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog ac yn rhoi triniaeth gyfartal i'r ddwy iaith.

### 3.2: Cyfarfodydd Cyhoeddus a Digwyddiadau

Bydd gwahoddiadau i ddigwyddiadau cyhoeddus yn holi a fydd mynychwyr yn dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg; os byddant, darperir adnoddau cyfieithu ar y pryd.

Bydd deunyddiau ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog.

### 3.3: Dogfennau, Cyhoeddiadau a Marchnata

Bydd dogfennau cyhoeddedig, ffurflenni, gwahoddiadau a hysbysebion, sy'n dod o dan y Safonau, ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Os cynhyrchir fersiynau ar wahân (Cymraeg a Saesneg), nodir yn glir bod fersiwn iaith arall ar gael.

### 3.4: Presenoldeb Ar-lein a Digidol

Bydd gwefan y Coleg a phresenoldeb ar-lein arall yn gwbl ddwyieithog. Cynhelir sianeli cyfryngau cymdeithasol ar wahân yn Saesneg ac yn Gymraeg, a bydd diweddariadau a chynnwys yn adlewyrchu ei gilydd. Bydd cyswllt trwy gyfryngau cymdeithasol yn derbyn ymateb yn y Gymraeg heb oedi.

### 3.5: Y Gweithle a Recriwtio

Gall ymgeiswyr wneud cais, cyfweld a gohebu â'r Coleg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

Cynigir dewis i staff dderbyn dogfennaeth, hyfforddiant a chymorth sy'n gysylltiedig â chyflogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ystyrir y polisi iaith mewn sesiynau sefydlu staff a hyfforddiant perthnasol.

### 3.6: Amgylcheddau Dysgu

Bydd prosesau ymgeisio a chofrestru'r Coleg ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gan ddysgwyr yr hawl i gael mynediad at wasanaethau sy'n ymwneud â'u cwrs yn y Gymraeg, gan gynnwys gwneud cais am gwrs, cyflwyno gwaith, cael eu hasesu a derbyn cefnogaeth ac arweiniad yn y Gymraeg. Gall dysgwyr dderbyn eu tystysgrifau cyflawniad yn y Gymraeg os dymunant. Bydd y Coleg yn annog dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg a chydnabod gwerth sgiliau dwyieithog ar gyfer cyflogaeth ac astudiaeth bellach.

### 3.7: Yr Amgylchedd ac Arwyddion

Bydd unrhyw arwyddion newydd neu dros dro ar safle'r Coleg yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn amlwg.

Bydd y dderbynfa'n darparu gwasanaeth dwyieithog; bydd modd adnabod staff sy'n gallu siarad Cymraeg e.e. trwy linyn gwddf neu fathodyn.

### 3.8: Monitro, Adrodd a Chwynion

Bydd y Coleg yn monitro ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Iaith Gymraeg yn rheolaidd ac yn cynnal tystiolaeth o gydymffurfiaeth i ymateb i unrhyw gais gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg.

Cyhoeddir adroddiad blynyddol yn amlinellu cydymffurfiaeth, cynnydd yn erbyn cynlluniau gweithredu, unrhyw safonau nas cyrhaeddwyd, ac unrhyw gwynion a dderbynnir mewn perthynas â gwasanaethau'r iaith Gymraeg.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau'r iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Iaith Gymraeg. Lle nad yw'r gwasanaeth a ddarperir yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, gellir codi pryderon drwy weithdrefnau cwyno sefydledig y Coleg i alluogi cymryd camau cywirol priodol. Yn ogystal â phrosesau mewnol y Coleg, gellir cyflwyno cwynion yn uniongyrchol i Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg hefyd.

## 4. Cyfrifoldebau

### 4.1: Yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth

Mae aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, yn benodol y Dirprwy Bennaeth a'r Prif Swyddog Ariannol a'r Cyfarwyddwr Polisi, Sicrwydd a Chydymffurfiaeth, yn atebol am oruchwylio ac adrodd ar gydymffurfiaeth y Coleg â Safonau'r Iaith Gymraeg.

### 4.2: Cyfieithydd y Gymraeg

Yr aelod staff penodedig sy'n gyfrifol am gyfieithu i'r Gymraeg, ac sy'n cefnogi'r uwch arweinwyr sy'n gyfrifol drwy gydlynu gweithgaredd cydymffurfio, a gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer materion yr iaith Gymraeg

## 5. Datganiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

5.1 Mae Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg wedi'i gwblhau ac mae wedi'i bennu bod effaith gadarnhaol gyffredinol ar y meysydd hyn.

## 6. Cyfathrebu a Chadw

6.1 Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi i'r holl staff ar y llwyfan 'Every'

6.2 Caiff y polisi hwn ei gyhoeddi i fyfyrwyr, rheini, gwarcheidwaid a rhanddeiliaid eraill ar wefan y coleg.

6.3 Mae'r polisi hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.